



Asesiad o Ddatganiad Amgylcheddol

gan Richard James BSc (Anrh) MSc
MRTPI

Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion
Cymru

Dyddiad: 30/06/2026

Assessment of Environmental Statement

by Richard James Bsc (Hons) Msc MRTPI

an Inspector appointed by the Welsh Ministers

Date: 30/06/2026

Cyf: CAS-03018-G7G6H7

Cyfeiriad y safle: Parc Ynni Mynydd Ty-talwyn, sydd wedi'i leoli tua 5km i'r gogledd-orllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, 4.5km i'r gogledd-ddwyrain o'r Pîl, a 2km i'r gorllewin o Don-du.

- Mae'r Datganiad Amgylcheddol sy'n destun yr asesiad hwn wedi'i gyflwyno mewn perthynas â'r achos uchod yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (fel y'u diwygiwyd).
- Gwneir y cais gan Galileo 03 Limited.

Cyflwyniad

- Mae Datganiad Amgylcheddol (DA) wedi cael ei baratoi i gefnogi cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad arno. Mae'r datblygiad a gynigir yn ddatblygiad y mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) yn berthnasol iddo (datblygiad AEA) o fewn ystyr y rheoliadau. Fel y'i cyflwynwyd yn flaenorol, canfuwyd bod y DA yn anghyflawn am y rhesymau a nodir yn fy adroddiadau dyddiedig 26 Chwefror 2026 a 14 Mai 2026 (yr adroddiadau blaenorol).
- Yn dilyn y cyflwyniad blaenorol ar 24 Ebrill 2026, canfuwyd bod y DA yn anfoddhaol o ran ei ddisgrifiad o'r datblygiad ac effeithiau arwyddocaol tebygol y datblygiad ar yr amgylchedd. Er mwyn cwblhau'r DA yn foddhaol, hysbyswyd yr ymgeisydd y dylai ddarparu gwybodaeth ychwanegol am nifer a lleoliad amcangyfrifedig croesfannau cyrsiau dŵr llai o faint, ac asesiad llawn o arwyddocâd effeithiau amgylcheddol y gwaith hwn. Fel arall, roedd angen esboniad ynghylch pam yr ystyrir bod y lefel bresennol o wybodaeth yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer ystyried effeithiau amgylcheddol.
- Cyflwynodd yr ymgeisydd ragor o wybodaeth ar 4 Mehefin 2026 mewn ymateb i'r gofyniad hwn.

Y Datblygiad a Gynigir

- Mae'r datblygiad a gynigir yn parhau i fod fel y'i disgrifiwyd yn yr adroddiadau blaenorol.

Cyflawnrwydd Datganiadau Amgylcheddol

5. Nod Datganiad Amgylcheddol (DA) yw darparu adroddiad systematig a gwrthrychol ar yr effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sy'n debygol o ddeillio o'r datblygiad a gynigir, gan gynnwys digon o wybodaeth i wirio'r casgliadau a nodi ffynhonnell y wybodaeth a ddarperir. Mae Rheoliad 17 ac Atodlen 4 Rheoliadau 2017 yn pennu'r wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn DA. Mae fy asesiad o gyflawnrwydd wedi'i seilio ar y gofynion hyn. Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â'r adroddiadau blaenorol.

Disgrifiad o'r Datblygiad

6. Darparwyd sylwadau ychwanegol yn y Tabl 6.4 newydd ym Mhennod 6 'Dŵr' y DA i esbonio pam y mae'r ymgeisydd o'r farn bod y lefel bresennol o wybodaeth yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer cyrsiau dŵr. Mae'r sylwadau hyn yn cyfeirio, ymhlith pethau eraill, at leoliad y safle ar lwyfandir a chfyuniad o fapio ar-lein, data Cyfoeth Naturiol Cymru a gwaith arolygu'r safle i lywio'r wybodaeth am groesfannau cyrsiau dŵr. Ar sail gwerth hydrologig ac ecolegol isel y Cyrsiau Dŵr Cyffredin llai o faint nad ydynt wedi'u mapio yn y dystiolaeth, mae'r ymgeisydd o'r farn na fyddai unrhyw groesfannau ychwanegol yn arwain at effeithiau amgylcheddol o unrhyw bwys.
7. Mae'r disgrifiad o'r datblygiad bellach yn foddhaol.

Disgrifiad o'r dewisiadau amgen rhesymol

8. Mae'r ystyriaeth o'r prif ddewisiadau amgen yn parhau i fod yn foddhaol.

Disgrifiad o'r agweddau ar yr amgylchedd y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arnynt

9. Mae'r agweddau ar yr amgylchedd y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arnynt yn parhau i fod wedi'u disgrifio'n ddigonol.

Methodoleg Asesu

10. Mae methodoleg yr AEA yn parhau i fod wedi'i disgrifio'n glir yn y DA.

Disgrifiad o effeithiau arwyddocaol tebygol y datblygiad ar yr amgylchedd

11. Gyda'r sylwadau a grybwyllir uchod yn Nhabl 6.4 Pennod 6 y DA, mae effeithiau arwyddocaol y datblygiad ar yr amgylchedd bellach wedi'u hasesu a'u disgrifio'n ddigonol.

Mesurau atal a / neu liniaru

12. Mae'r mesurau lliniaru a ddisgrifir yn y DA yn parhau i fod yn foddhaol.

Arwyddion o unrhyw anawsterau wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol

13. Mae cyfyngiadau ac anawsterau a welwyd yn parhau i fod wedi'u disgrifio'n ddigonol.

Darparu Crynodeb Annhechnegol

14. Mae'r crynodeb annhechnegol yn ddigonol ar gyfer y DA fel y mae wedi'i lunio.

Rhestr Gyfeirio

15. Mae'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i lywio'r DA wedi'u cyfeirio'n briodol ym Mhenodau ac atodiadau'r DA lle bo hynny'n briodol.

Casgliadau Cyffredinol

16. Deuaf i'r casgliad y dylid cadarnhau bod y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd gan Galileo 03 Limited ar 27 Tachwedd 2025 fel y'i diwygiwyd ar 24 Ebrill 2026 a 4 Mehefin 2026 yn cynnwys y lefel o wybodaeth a bennir yn Rheoliad 17 ac Atodlen 4 Rheoliadau AEA 2017 a'i fod yn gyflawn at ddibenion y Rheoliadau hynny.

Richard James

Arolygydd